TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Agored Cymru Mynediad i AU - Meddygaeth Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn paratoi myfyrwyr yn benodol ar gyfer cyrsiau gradd megis Meddygaeth a Deintyddiaeth. Mae hefyd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer cyrsiau gradd yn ymwneud â gwyddorau meddygol megis Optometreg, Fferylliaeth, Ffarmacoleg, y Gwyddorau Biofeddygol, Radiograffeg a Ffisioleg. Darperir ystod o unedau cynnwys pynciau academaidd mewn bioleg, cemeg a ffisioleg yn ogystal ag amrywiaeth o unedau a ddyluniwyd i wella sgiliau academaidd myfyrwyr. Bydd disgwyl i fyfyrwyr ymrwymo i raglen o leoliadau profiad gwaith mewn lleoliad gofal iechyd drwy gydol y cwrs.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych chi'n bodloni'r meini prawf derbyn

... Mae gennych ddiddordeb mawr mewn unrhyw ddisgyblaeth gwyddoniaeth

... Rydych eisiau astudio llwybr Meddygaeth yn y Brifysgol

... Rydych eisiau gweithio mewn gyrfa sy'n ymwneud â llwybr Meddygaeth.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd y cwrs yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i'ch helpu i fodloni eich targed.

Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau megis Biocemeg, Anatomeg, Ffisioleg, Technoleg DNA, Cemeg, Mathemateg a Ffiseg, sydd oll wedi'u teilwra i gefnogi eich astudiaethau academaidd i'r dyfodol yn y brifysgol. Hefyd, byddwch yn cyflawni prosiect ymchwil archwilio, datblygu eich sgiliau astudio a mynd ar brofiad gwaith mewn lleoliadau gofal iechyd lleol.

Dyfernir y Diploma Mynediad i Addysg Uwch gan Agored Cymru. Os byddwch yn llwyddo yn y cwrs, byddwch yn cael diploma Mynediad i Feddygaeth gan Agored Cymru.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Cwrs paratoadol naw mis yw hwn ar gyfer graddau prifysgol, felly mae angen ymrwymo'n llawn er mwyn llwyddo. Disgwylir presenoldeb ac amseroldeb ardderchog yn ogystal ag astudio y tu allan i oriau gwersi. Mae'n bwysig eich bod chi'n meddwl sut fyddwch chi'n cydbwyso'r gwaith gyda'ch bywyd teuluol ac unrhyw ymrwymiadau eraill allai fod gennych.

Bydd pob ymgeisydd yn cael cyfweliad gyda phrawf gallu i asesu sgiliau ysgrifennu a'ch ddelfrydol ar Lefel A (gan gynnwys un ai Lefel A mewn Bioleg neu Gemeg neu Fathemateg).
Os ydych chi'n credu nad ydych wedi achub ar bob cyfle neu heb gael cyfle i gyflawni eich llawn botensial oherwydd eich profiad ysgol neu eich amgylchiadau personol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Symud ymlaen i brifysgol i astudio gradd mewn pwnc Meddygol / Biowyddorau, megis Meddygaeth, Deintyddiaeth, Bioleg, Biofeddygaeth ac Optometreg.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Gall dysgwyr sydd ar y cwrs MYNEDIAD i feddygaeth elwa o gyfweliadau gwarantedig neu wedi'u blaenoriaethu gydag ysgolion yng Nghaerdydd a Bryste, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan y prifysgolion.